


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru o blaid Affrica

# 10 Mlynedd

## 2006-2016





Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

Mae Cymru wastad wedi bod yn genedl eang ei gorwelion, yn awyddus i chwarae ein rhan yn byd, Ddeng mlynedd yn ôl, yn unol a'n hysbryd allblyg, lansiwyd ein rhaglen Cymru o blaid Affrica, sy'n annog mwy o bobl yng Nghymru i fod yn rhan o waith datblygu gydag Affrica.

Ystod y cyfnod hwn, mae miloedd o unigolion, mewn cannoedd o gymunedau a sefydliadau ledled Cymru, wedi cynnig eu hamser, egni, adnoddau ac arbenigedd i amrywiaeth o brosiectau datblygu ledled Affrica Is-Sahara. Mae'r partneriaethau hyn yn nodweddiadol o'r ffordd yr eir i'r afael â datblygu rhyngwladol yng Nghymru, lle caiff profiadau a gwybodaeth eu rhannu gan ddangos parch a chydbwysedd rhwng y naill a'r llall. Mae'r fath gamau sy'n seiliedig ar gymdeithas sifil ac yn ferw o brysurdeb wedi arwain at feithrin cyfeillgarwch ledled Cymru ac Affrica, wrth i bobl gydweithio mewn ffordd ymarferol, pwrpasol ac ystyrlon er mwyn cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Gweledigaeth y Nodau hyn yw byd a rannir sydd wedi'i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy lle na chaiff neb ei adael ar ôl. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fod yn rhan o'r ymateb i gyflawni hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn dathlu'r cyfraniad unigryw y mae Cymru wedi'i wneud at ganlyniadau datblygu dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r rhaglen wedi tyfu, gyda'i chanlyniadau yn rhagori ar ei chyllideb gymharol fach, ac rydym yn gwbl haeddiannol yn ymfalchïo yn ei llwyddiant. Ond gwyddom y gallwn wneud mwy.

Dros y blynyddoedd i ddod byddwn yn adeiladu ar ein cyflawniadau er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith rhagorol y mae pobl a grwpiau ledled Cymru ac o Affrica yn ei wneud tuag at gyflawni'r Nodau a therfyn ar dlodi o bob math ym mhob man erbyn 2030.



**"Mae gan bobl Cymru galonnau mawr. Maen nhw'n perthyn i wlad fach, ond bois bach, maen nhw'n cicio fel mul!"**

Yr Archesgob Desmond Tutu,
ar ei ymweliad â Chymru
ym mis Hydref 2012

# Llinell Amser



## Cymru o blaid Affrica

Mae'r ymgyrch Rhown Derfyn ar Dlodi yn rhoi pwysau cyhoeddus sylweddol ar Lywodraeth Cymru i feithrin 'cyfraniad unigryw Cymreig' at ddatblygu byd-eang ac adlewyrchu dewis bwriadol pobl Cymru i fod yn genedl sydd ymhell o fod yn fewnblyg.
Nod rhaglen Cymru o Blaid Affrica yw annog pobl Cymru i gyfrannu'n fwy effeithiol at ddatblygu rhyngwladol. Cyn hir, mae'r rhaglen ar flaen y gad yn ymdrech Cymru i helpu i gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig o haneru tlodi byd-eang erbyn 2015.

## Cysylltu Cymunedau

Caiff Prosiect Seren Aur ei lansio yn y Senedd i nodi Diwrnod Tlodi'r Byd y Cenhedloedd Unedig ar 17 Hydref 2007 gan y Prif Weinidog ar y pryd, Rhodri Morgan AC. Cefnogodd y prosiect y gwaith o ddatblygu sefydliadau yng Nghymru, gan eu galluogi i greu cysylltiadau o ansawdd â phartneriaid yn Affrica a fyddai o fudd i'r naill a'r llall er mwyn helpu i gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm. Datblygodd Prosiect Seren Aur yn rhaglen flaenllaw gyntaf Cymru o blaid Affrica - Cysylltiadau Cymunedol Cymru ac Affrica – a oedd yn anelu at gysylltu cymunedau mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.

## nrg4SD

Mae Cymru yn cyd-gadeirio Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD) yn ystod Uwchgynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen. Mae'r nrg4SD yn rhwydwaith rhyngwladol o lywodraethau is-genedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys Québec, Catalonia, Fflandrys, Llydaw a Mbale. Ei brif nod yw sicrhau bod llywodraethau rhanbarthol yn cael eu cydnabod gan y Cenhedloedd Unedig a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar lefel ryngwladol.

## Panel Cynghori Is-Sahara

Sefydlir Panel Cynghori Islaw'r Sahara i ddwyn ynghyd grwpiau ar wasgar Cymru fel bod ganddynt lais a phroffil.

2006 | 2007 | 2008 | 2009

## Cylchlythyr Iechyd Cymru

Yn sgil cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru, gwelir yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi a meithrin cysylltiadau iechyd â darparwyr iechyd, prifysgolion, hyfforddwyr, cyrff anllywodraethol, sefydliadau iechyd rhyngwladol neu lywodraethau yn Affrica Is-Sahara.



## Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

Mae Cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle unigryw i dreulio wyth wythnos yn Affrica islaw'r Sahara yn gweithio ar brosiectau datblygu a gynlluniwyd i wella sgiliau arwain y cyfranogwyr. Mae'r rhaglen yn cynnig profiad unigryw o gydweithio'n agos â sefydliadau Affricanaidd, gan arwain ar brosiectau penodol.
Ers 2007 mae dros 150 o bobl wedi cael cyfle i brofi bywyd a gwaith mewn gwlad ddatblygol. Cawsant agoriad llygad ynglŷn â'r angen i weithio ac addasu yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Daethant yn eu holau wedi cryfhau eu sgiliau fel arweinwyr ac yn barod i gyfrannu at y gwaith o gyflawni ar gyfer pobl Cymru mewn cyfnod heriol.

## Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica

Caiff Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica ei lansio. Mae'r rhwydwaith yn manteisio ar yr arbenigedd a geir o fewn y GIG yng Nghymru a phartneriaid mewn cymunedau difreintiedig yn Affrica.

## Cymru'n Genedl Masnach Deg Gyntaf

Ar 6 Mehefin 2008 gwnaed hanes wrth i Gymru ddod yn wlad Fasnach Deg gyntaf erioed. Daeth y cyhoeddiad yn dilyn ymgyrch ddwy flynedd gan Fforwm Masnach Deg Cymru, a ariannwyd gan Raglen Cymru o Blaid Affrica, i sicrhau bod mwy o gynnyrch Masnach Deg ar gael mewn trefi, dinasoedd a siroedd ledled Cymru, ac annog ysgolion, busnesau a sefydliadau eraill i newid i Fasnach Deg.
Mae Cymru'n parhau i fod yn Genedl Masnach Deg hyd heddiw ac mae Masnach Deg Cymru'n gweithio ym meysydd addysg, polisi, caffael, cefnogaeth ac ymgyrchu yng Nghymru.

Llun clawr © Stephanie Ferry

OGL © Hawlfraint y goron 2016, Llywodraeth Cymru WG29297, ISBN 978-1-4734-7666-0



## Uwchgynhadledd Datblygu Rhyngwladol Cymru

I adlewyrchu bwrlwm y gwaith datblygu rhyngwladol sy'n digwydd yng Nghymru, ariannodd rhaglen Cymru o Blaid Affrica Uwchgynhadledd gyntaf Datblygu Rhyngwladol Cymru. Daeth yr uwchgynhadledd ag ymarferwyr, gwirfoddolwyr, academyddion, Diaspora ac ymgyrchwyr ym maes datblygu rhyngwladol ynghyd i drafod amrywiaeth o faterion megis rhywedd ac addysg, iechyd a hawliau dynol, cadernid a newid hinsawdd. Erbyn hyn, yr uwchgynhadledd yw'r digwyddiad blynyddol mwyaf yng Nghymru ym maes datblygu rhyngwladol. Dan arweiniad Hub Cymru Africa, mae'r digwyddiad yn dod â channoedd o bobl o bob rhan o Gymru a thu hwnt ynghyd.

2010

## Deng Miliwn o Goed

Mae prosiect Maint Cymru'n dod â phawb yng Nghymru ynghyd i roi cymorth i gynnal ardal o goedwig drofannol ddwywaith maint Cymru fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i newid hinsawdd.
Mae rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn cychwyn gweithio gyda Maint Cymru ar blannu coed yn ardal Mbale yn Uganda. Hyd yma (2016), plannwyd pedair miliwn o goed – gan roi cymorth i leddfu'r problemau a achoswyd gan flynyddoedd o erydiad pridd o ganlyniad i ddatgoedwigo, a rhoi bywoliaeth newydd a chynaliadwy i bobl leol o'r ffrwyth a'r pren a ddaw o'r coed.



2011

## Cynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, Durban

Mae prosiect Miliwn o Goed Cymru-Mbale – a ddatblygwyd ar y cyd â rhaglen Maint Cymru – yn cael ei ddewis gan y Cenhedloedd Unedig fel un o'i 'Brosiectau Disglair' yn lansiad Momentwm dros Newid yng Nghynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Durban.

## Hwb Datblygu Rhyngwladol Cymru

Caiff Hwb Datblygu Rhyngwladol Cymru ei lansio gan ddwyn ynghyd filoedd o unigolion a channoedd o sefydliadau i gefnogi'r rhwydwaith sydd wedi tyfu a datblygu ers lansio Cymru o Blaid Affrica.

2012



## Yr Archesgob Desmond Tutu yn ymweld â Chymru

Ymwelodd yr ymgyrchydd byd enwog ac enillydd Gwobr Heddwch Nobel â Chymru fel gwestai'r Prif Weinidog i gydnabod llwyddiannau rhaglen Cymru o Blaid Affrica.
Cyfarfu'r Archesgob Tutu â phobl sydd wedi bod ynghlwm â phrosiectau Cymru o Blaid Affrica. Mynychodd wasanaeth boreol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, sydd â chysylltiad â Lesotho, yn ogystal ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg sydd â chysylltiad ag Uganda ac aeth ar daith i weld Plant y Cymoedd ym Mhenygraig i ddysgu am eu cysylltiad â threflan yn Ne Affrica.

2013

## Watch-Africa

Caiff gŵyl ffilmiau Affricanaidd gyntaf Cymru ei chynnal. Mae'r ŵyl yn rhoi llwyfan i waith cyfarwyddwyr ac artistiaid o Affrica a Chymru, gwaith Diaspora Affrica a gwaith cyfarwyddwyr ac artistiaid rhyngwladol sy'n dangos Affrica a'i bywyd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol o safbwynt newydd-drwy ffilm.

2014

## Prifysgol Caerdydd yn lansio Prosiect Phoenix

Mae Prifysgol Caerdydd yn dechrau gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Namibia er mwyn codi safonau, a hyrwyddo iechyd gwell a llai o dlodi.
Mae'r dull hwn i'w weld ar draws Cymru, gan gynnwys ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor, pob un gyda rhaglen unigryw gydag Affrica.

## Y Prif Weinidog yn ymweld ag Uganda

Ym mis Ionawr 2014 treuliodd Prif Weinidog Cymru bron i wythnos yn ymweld â phrosiectau a wnaed yn bosibl gan gymorth rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Yn ystod ei ymweliad plannodd y filiynfed goeden ar gyfer Prosiect Miliwn o Goed Maint Cymru, gosododd garreg sylfaen mewn melin a storfa sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer gweddwon gan brentisiaid o Goleg Sir Gaerfyrddin, a gwelodd sut mae PONT – cyswllt Cynon Taf a Mbale – yn gwneud gwelliannau i'r ysbyty rhanbarthol trwy gysylltiadau ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Yn ogystal, agorodd neuadd breswyl i ferched mewn ysgol a gafodd arian a godwyd gan Ysgol Uwchradd Pontypridd.

## Plant!

Mae'r Prif Weinidog yn lansio estyniad Plant! O fis Ebrill 2014, caiff coeden ei phlannu yng Nghymru ac Uganda am bob plentyn a gaiff ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru.

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Llofnodir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mis Ebrill 2014 rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Lesotho er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiadau dwyochrog ac annog ymhellach gydweithredu mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin.



Mae'r Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC yn cynnal digwyddiad yn y Senedd ym Mae Caerdydd i nodi deng mlynedd ers sefydlu Cymru o blaid Affrica. Fel rhan o'r dathliadau deng mlynedd, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, Vaughan Gething AC, yn ymweld â phrosiectau Cymru o blaid Affrica yn Mbale, Uganda.

# Cymru o blaid Affrica

# 10 Mlynedd

2015

2016

### Hub Cymru Africa

Caiff Hub Cymru Africa ei lansio ym mis Ebrill 2015. Mae'n rhoi ethos y bartneriaeth ar waith drwy ddwyn ynghyd waith Cysylltiadau Cymunedol Cymru Affrica, Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica, Panel Cynghori Islaw'r Sahara, Masnach Deg Cymru a Hwb Datblygu Rhyngwladol Cymru.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei phasio. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy saith nod llesiant. Mae un o'r nodau hyn yn canolbwyntio ar fod yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

### O Nodau Datblygu'r Mileniwm i Nodau Datblygu Cynaliadwy

Daw cyfnod Nodau Datblygu'r Mileniwm i ben. Yn eu lle, caiff agenda 'tu hwnt i 2015', sy'n cynnwys 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy, ei chyhoeddi yn Uwchgynhadledd Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd ym mis Medi 2015.

### 'Fy Musnes i yw Masnach Deg'

Caiff 'Fy Musnes i yw Masnach Deg' ei lansio, sef prosiect tair blynedd sy'n cydnabod y rhan allweddol y gall busnesau Cymru ei chwarae wrth ddefnyddio, cefnogi a hyrwyddo Masnach Deg.

### Dolen Cymru a PONT

Hefyd yn y flwyddyn hon, mae Dolen Cymru – rhaglen gysylltiadau flaenllaw rhwng Cymru a Lesotho – yn dathlu 30 mlynedd ers ei sefydlu. Yn ogystal, mae PONT - prosiect cysylltiadau cymunedol rhwng Rhondda Cynon Taf a Mbale yn Uganda - yn dathlu deng mlynedd, gyda thros 600 o ymweliadau rhwng y cymunedau.

# Cymru o blaid Affrica – Trosolwg

Dros y deng mlynedd diwethaf mae Cymru o blaid Affrica wedi helpu pobl i chwarae mwy o ran mewn datblygu rhyngwladol drwy weithio a chydweithredu ag unigolion, cymunedau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus - gan gynnwys y GIG yng Nghymru. Ers ei lansio yn 2006 mae Cymru o blaid Affrica wedi bod yn gweithio gyda'r partneriaid hyn er mwyn helpu i adeiladu byd tecach. Mae Cymru o blaid Affrica yn adlewyrchu'r galw sydd yng Nghymru am gyfraniad amlwg Gymreig at drechu tlodi byd-eang. Mae gwaith y rhaglen yn ategu'r hyn a wneir gan Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol Llywodraeth y DU, ac mae'n golygu bod Cymru yn chwarae rhan ar y llwyfan byd-eang – gan weithio, er enghraifft, gyda Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy a'r Grŵp Hinsawdd yn y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r egwyddorion partneriaeth sydd wrth wraidd ein gwaith yn seiliedig ar gyyniadau craidd cymuned a pharch a budd rhwng y naill a'r llall. Labelwyd model cymorth Cymru o blaid Affrica yn 'fodel Cymreig' gan lawer o'n partneriaid fel rhywbeth sy'n mynegi balchder yn yr hyn y mae Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn ei gyflawni. Mae'r holl brosiectau a gefnogir gan y rhaglen o fudd i Gymru, ac mae'r gweithgareddau a ariannwyd wedi cynnwys ffocws ar grwpiau masnach deg a chymunedau ar wasgar, cysylltiadau iechyd a chymunedol a datblygu proffesiynol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r rhaglen wedi datblygu ei rhaglen nodedig ei hun gyda Lesotho a Mbale, yn Uganda.

# Meddwl yn fyd-eang

Mae cyfraniad Cymru o blaid Affrica at y Nodau yn helpu i hwyluso ymateb amlwg Gymreig i gamau gweithredu rhyngwladol sy'n seiliedig ar gyd-ddatblygu ar sail partneriaeth. O grŵp bach o unigolion ymroddedig, mae'r mentrau cydgefnogol a arweinir gan ddinasyddion sy'n nodweddu'r sector datblygu yng Nghymru bellach i'w gweld ledled y wlad. Mae Cymru yn sicr yn rhan o rwydwaith byd-eang sy'n ymrwymedig i gyfiawnder cymdeithasol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mewn darn arloesol o ddeddfwriaeth, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (2015) yn ein hymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ers ei phasio, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi canolbwyntio'n fwy ar helpu Cymru i ddangos ei hymrwymiad i'r saith nod llesiant, gan gynnwys Nod 7 - 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Mae'r cysylliadau byd-eang hyn yn dangos bod Cymru'n wlad hael, eang ei gorwelion. Mae'r dengmlwyddiant yn gyfle i ddathlu'r llwyddiannau ac i edrych tua'r dyfodol – tuag at y byd rydym am fyw ynddo a'r Gymru rydym am ei chreu.

**"Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn crisialu ysbryd a hanfod dau ddegawd o waith y Cenhedloedd Unedig ym maes datblygu cynaliadwy ac mae'n batrwm i ranbarthau a gwledydd eraill. Ein gobaith yw y bydd y byd yfory yn gwneud yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw. Camau gweithredu yn hytrach na geiriau - dyna'n gobaith i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol."**

Nikhil Seth, Cyfarwyddwr yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.





# Gwneud argraff - 10 mlynedd o Gymru o blaid Affrica

Rydym yn plannu
**10 miliwn**
**o goed**
yn Mbale, Uganda
mewn partneriaeth gyda
**Maint Cymru**
gyda 4.2 miliwn wedi'u plannu eisoes

**Yn 2008** daeth **Cymru**
yn **wlad Masnach**
**Deg gyntaf y byd**

Mae **102,222**
o bobl ledled Cymru yn weithgar
mewn Masnach Deg, ac mae

**86%** o bobl yng Nghymru
yn adnabod y marc
FAIRTRADE

**Ers 2006**
rydym wedi cefnogi
**528**
o brosiectau datblygu
gwahanol ar draws
**25** o wledydd
Affrica

**160** o reolwyr ac arweinwyr yng
Nghymru wedi elwa o'n
rhaglen Cyfleoedd Dysgu
Rhyngwladol, gan rannu
**47,300** awr o arbenigedd
gyda phartneriaid yn Affrica

Hyd yma rydym wedi cefnogi
**72** **o brosiectau iechyd**
gan arbed bywydau a gwella iechyd
cannoedd o filoedd o bobl ar draws Affrica

Y llynedd yn unig, am bob
**£1** a wariwyd gennym
ar bartneriaethau
iechyd, cafodd
**£5** ychwanegol ei
ddenu mewn
arian cyfatebol
a rhoddion

Mae gan **Gymru un**
**rhan o bump**
o gysylltiadau ysbytai'r DU ag
Affrica, ac mae gan bob bwrdd iechyd
yng Nghymru gyswllt ysbyty gweithredol

Yn 2015 yn unig fe
wnaeth dros **80,000**
o bobl ar draws
Cymru a mwy na
**260,000**
o bobl yn Affrica elwa o'n
cynllun grantiau bach

**544,000**
o ffermwyr tlawd Uganda
yn cael gwell bywoliaeth a
rhywfaint o ddiogelwch
rhag newid yn yr hinsawdd,
diolch i'n prosiect
**10** Miliwn o Goed

**450,000**
o bobl wedi
darganfod gwerth
coedwigoedd glaw
trwy ein prosiect
**Maint Cymru**

# Mae stori wrth wraidd pob ystadegyn...

Gyda chyllideb o ryw £860k y flwyddyn, rydym yn cefnogi prosiectau sy'n rhannu sgiliau, gwybodaeth a diwylliant. Ein model newid yw cynnwys mwy o bobl â sgiliau ehangach i gyflawni prosiectau o ansawdd gwell er mwyn gwella effeithiolrwydd mentrau elusennol, dysgu, partneriaeth a datblygu rhwng Cymru ac Affrica. Mae sawl ffordd o gymryd rhan – o newid i Fasnach Deg, cefnogi eich cyswllt cymunedol lleol, i leoliadau gwaith ymhlith llawer mwy.

## Grantiau Cymru o blaid Affrica

Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud ein gwaith yw drwy gynnig arian grant. Caiff ein cynllun grant presennol ei reoli gan Hub Cymru Africa - prosiect partneriaeth tair blynedd sy'n cefnogi cysylltiadau rhwng Cymru ac Affrica sydd o fudd i'r naill a'r llall, a gweithgareddau Masnach Deg i atgyfnerthu, cyfuno a chodi proffil datblygu rhyngwladol yng Nghymru.

Mae gwella lles a bywoliaeth pobl yn rhan bwysig o'r gwaith a wnawn. Drwy ddarparu cymorth ariannol a thechnegol, mae Cymru o blaid Affrica yn hyrwyddo prosiectau partneriaeth cynaliadwy hirdymor sy'n cael effaith gymdeithasol wirioneddol – ac sy'n parchu'r llinell denau rhwng anghenion pobl a diogelu'r amgylchedd.

Mae Cymru o blaid Affrica yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau – a gall hyd yn oed y grantiau llai wneud gwahaniaeth mawr, gan ddwyn ynghyd bobl o gymunedau ledled Cymru i gefnogi cymunedau yn Affrica.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn rhoi syniad o'r math o gynlluniau rydym wedi'u cefnogi.



**"Rydym yn edrych ymlaen at weld cynnydd yn yr ansawdd ac effaith y mae sefydliadau bach Cymreig yn eu cael, gyda mwy a mwy o bobl yn cael eu hysbrydoli i gymryd rhan mewn partneriaethau gydag Affrica"**

Cat Jones, Pennaeth Partneriaeth, Hub Cymru Africa

## Tools for Self Reliance Cymru

Mae Tools for Self Reliance Cymru yn un o blith sawl sefydliad a gefnogir gennym sy'n ystyried bywoliaeth gynaliadwy ym maes datblygu. Wedi'i leoli yng Nghrucywel, Powys mae'r grŵp yn casglu hen gyfarpar llaw nad oes eu hangen, gan eu hadnewyddu cyn anfon pecynnau cymorth cyfarpar i grwpiau cymunedol llawr gwlad yn Affrica. Mae wedi bod yn gweithio gyda'i bartner yn Tanzania - Sefydliad Datblygu Diwydiannau Bach - ers dros ugain mlynedd. Mae grant Cymru o blaid Affrica diweddar yn helpu 150 o bobl mewn ardaloedd gwledig i gael gafael ar gyfarpar fforddiadwy a hyfforddiant mewn crefftau fel gwaith gof, teilwra a gwaith saer. Mae hyn yn adeiladu ar gymorth cynharach gan grant Cymru o blaid Affrica, lle cafodd cyllid gan y rhaglen ei ddefnyddio i gyflenwi cyfarpar llaw gwaith coed gwyrdd Masnach Deg o Tanzania i'w werthu ledled Cymru a'r DU.

Hefyd, bu'r arian hwn ar gyfer ei raglen Cyfarpar Masnach Deg o gymorth i hyfforddi a meithrin sgiliau gwirfoddolwyr mewn gweithdai Tools for Self-Reliance yng Nghymru – gan gynnwys pobl ddi-waith neu bobl yr oedd angen therapi a chymorth galwedigaethol arnynt.

## Ysgol Esgob Morgan

Un o'r rheini a dderbyniodd grant gweithgaredd bach y llynedd oedd prosiect 'Dathlu a Rhannu Masnach Deg' Ysgol Esgob Morgan.

Yr ysgol oedd yr ysgol gynradd gyntaf yn Sir Ddinbych i gael Dyfarniad Ysgolion Masnach Deg ac mae'n parhau i gynnal y momentwm ac adeiladu ar y gwaith da hwn. Y llynedd, gwnaeth yr ysgol gais llwyddiannus am grant, a ddefnyddiwyd ganddi i ymestyn ei dylanwad ac ymgorffori diwylliant Masnach Deg yn y gymuned ehangach – daethpwyd â phobl ynghyd drwy drefnu 'Siopau Coffi Masnach Deg' codi ymwybyddiaeth misol i rieni a'r gymuned.

**"Mae hyn yn enghraifft berffaith o'r hyn sy'n digwydd mewn Gwlad Masnach Deg. Mae mor bwysig bod pobl ifanc a'u rhieni yn cael y cyfle i ddysgu am y bobl sy'n gwneud ac yn tyfu'r pethau sydd eu hangen arnom bob dydd, a bod ffermwyr a gweithwyr yn cael gwell telerau drwy Fasnach Deg. Mae Ysgol Esgob Morgan yn arwain y ffordd, a gobeithio y bydd mwy o ysgolion yn dilyn ei hesiampl"**

Elen Jones, Cydlynydd Cenedlaethol,
Masnach Deg Cymru





# Ymddiriedolaeth Merched Hayaat

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Cymru o blaid Affrica wedi cefnogi ac annog mwy o bobl i ymwneud â chysylltiadau iechyd.

Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu i wella addysg iechyd, iechyd mamau a phlant, sgrinio a thriniaeth canser, gofal llygaid, mentrau iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd, ymhlith llawer o feysydd eraill. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru yn meithrin gallu ac adnoddau eu partneriaid drwy rannu gwybodaeth a sgiliau, meithrin rhwydweithiau, a darparu hyfforddiant a chyfarpar.

Mae Ymddiriedolaeth Merched Hayaat yn sefydliad nid er elw a leolir yng Nghaerdydd sydd wedi meithrin cysylltiadau â phobl Somali yng Nghymru ac Affrica. Ei nod yw helpu i wella darpariaeth addysg iechyd yn Somaliland, yn enwedig iechyd meddwl ac iechyd mamau. Mae hefyd yn gweithio i rymuso merched Affricanaidd yng Nghymru a Somaliland i uwchsgilio eu haddysg, hyfforddiant a gwella eu bywoliaeth.

Gyda chymorth Cymru o blaid Affrica, mae Ymddiriedolaeth Merched Hayaat yn canolbwyntio ar helpu unigolion ag anableddau iechyd meddwl a'u teuluoedd drwy nodi cyflyrau a darparu triniaeth a meddyginiaeth. Mae'r cyswllt yn darparu gweithdai meithrin gallu ac adnoddau ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl mewn ysbytai, gan fanteisio ar arbenigedd gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol o Gymru. Yna byddant yn gweithio yn y gymuned i addysgu pobl, a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

**"Mae'r rhaglen bwysig hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn Affrica ac yng Nghymru - drwy wella sgiliau a phrofiad gweithwyr iechyd proffesiynol ac, yn ei dro, godi safonau'n gyffredinol"**

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon




© Prifsgol Caerdydd, Prosiect Phoenix



## Ysbyty Glan Clwyd

Nod cyffredin y cyswllt rhwng Ysbyty Glan Clwyd yn y gogledd a Hossana, yn Ethiopia yw “darparu gofal da i’r rheini rydym yn gofalu amdanynt” – ac mae’r partneriaid yn helpu ei gilydd mewn sawl ffordd yn hyn o beth.

Er bod y mathau o ofal iechyd a gynigir gan yr ysbytai partner yn wahanol iawn, mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae staff o Glan Clwyd yn dysgu mwy am feddygaeth drofannol – fel HIV/AIDS, malaria, TB, diffyg maeth difrifol aciwt ac ati – a heriau gofal iechyd mewn lleoliad byd-eang, yn ogystal â gweithio heb fawr ddim adnoddau.

Ers 2007, mae’r bartneriaeth iechyd wedi tyfu a datblygu wrth i weithwyr iechyd ddod ynghyd fel rhan o ymrwymiad hirdymor i ddatblygiad proffesiynol y naill a’r llall. Mae wedi ehangu i gynnwys cyswllt rhwng yr uned llygaid yn Ysbyty Abergele yn y gogledd a’r uned yn Ysbyty Atgyfeirio Hawassa.

Mae clefydau’r llygad yn Ethiopia yn llawer mwy cyffredin a difrifol nag yng Nghymru, ond mae 100 gwaith yn llai o offthalmolegwyr. Gyda gofal llygad priodol, byddai modd osgoi neu drin 80% o’r achosion o fynd yn ddall yn y wlad. Mae’r cyswllt uned llygad yn addysgu ac yn cynorthwyo myfyrwyr a staff yn Ethiopia, ac yn dysgu am gyflyrau anghyffredin iawn yn y DU.

Mae hwn yn un o blith nifer o egin brosiectau cyswllt Glan Clwyd - Hossana, sydd hefyd yn cynnwys prosiectau seilwaith a chyswllt gofal sylfaenol.

Mae’r cyswllt hwn wedi cael cyllid gan Gymru o blaid Affrica yn 2015 a 2016 ar gyfer eu gwaith.



# PONT

Ers i Cymru o blaid Affrica ddechrau, mae perthynas agos ag Uganda – ac, yn arbennig, ranbarth Mbale – wedi datblygu'n rhan ganolog o'r rhaglen. Yn allweddol i hyn fu gwaith PONT, cyswllt cymuned i gymuned rhwng Rhondda Cynon Taf a Mbale.

Mae'r cyswllt yn cynllunio ei weithgareddau mewn dull sy'n edrych ar y system gyfan, yn seiliedig ar fodel datblygu cymunedol integredig. Fel rhan o hyn cysylltir gweithwyr proffesiynol a sefydliadau o'r ddwy gymuned, gan hyrwyddo grymusedd, dwyochredd a pharch.

Mae pobl rhanbarth Mbale ymhlith y tlotaf yn Affrica, gyda'r incwm cyfartalog o dan $1 y dydd, disgwyliad oes cyfartalog o 46, a chyfraddau marwolaeth babanod o ryw 200 y fil.

Nod PONT yw galluogi pobl Mbale i ddatblygu a chyflawni eu syniadau a'u datrysiadau eu hunain i dlodi. Cânt gymorth, anogaeth a chyngor gan eu cymheiriaid yng Nghymru ac, ar yr un pryd, mae gwirfoddolwyr yng Nghymru yn dysgu cryn dipyn.

Mae Cymru o blaid Affrica wedi cefnogi PONT o'r cychwyn gan ddarparu nifer o grantiau bach ar gyfer ei waith.

Dros gyfnod o 10 mlynedd mae PONT wedi:

- Hyfforddi 1,200 o weithwyr gofal iechyd sylfaenol
- Comisiynu 42 o ambiwlansys beic modur
- Darparu uned endoscopi yn ysbyty Mbale, a gwella ac uwchraddio nifer o adrannau
- Efeillio 105 o ysgolion a threfnu ymweliadau cyfnewid i athrawon a disgyblion
- Adeiladu Canolfan Addysg Anifeiliaid

## 10 Miliwn o Goed

Mae grant Cymru o blaid Affrica yn cefnogi prosiect plannu coed arloesol yn Mbale, Uganda lle plannwyd 4.2 miliwn o goed dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae prosiect 10 Miliwn o Goed yn brosiect ar y cyd rhwng 3 Chorff Anllywodraethol a Menter Gymdeithasol, y mae pob un yn aelodau o Glymblaid Gwrth-dlodi Mbale. Mae'r prosiect, sy'n rhan o Maint Cymru www.sizeofwales.org.uk yn canolbwyntio ar liniaru tlodi ac addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru.

Crëwyd dwsinau o blanhigfeydd coed cymunedol sy'n hyrwyddo agrogoedwigaeth ledled rhanbarth Mbale. Mae'r prosiect wedi helpu i wella bywoliaethau, helpu ffermwyr i addasu i Newid yn yr Hinsawdd a lledaenu'r neges am Newid yn yr Hinsawdd i filoedd o bobl yn Uganda ac yma yng Nghymru.

Caiff ffermwyr bach eu 'sensiteiddio' i newid yn yr hinsawdd a gwerth plannu coed gan weithwyr prosiect bach a grŵp theatr gymunedol ac yna cânt goed i'w plannu ar eu lleiniau bach rhwng eu cnydau coffi a bwyd.

Cafodd y prosiect gydnabyddiaeth ryngwladol yn Uwchgynhadledd Newid yn yr Hinsawdd COP 17 Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd yn Durban yn 2011 fel un o Brosiectau Disglair Momentwm dros Newid cyntaf y Cenhedloedd Unedig a allai gael ei weithredu rywle arall.

## Bees for Development

Mae Cymru o blaid Affrica hefyd wedi cefnogi elusen Bees for Development a leolir yn Nhrefynwy sy'n gweithio mewn partneriaeth â phrosiect 10 Miliwn o Goed drwy hyfforddi ffermwyr i gadw gwenyn a chynaeafu mêl mewn ffordd gynaliadwy - gan alluogi pobl i fod yn hunan-ddibynnol tra'n diogelu'r amgylchedd.

Croesewir cadw gwenyn yn Mbale am ei fod yn creu ffrwd incwm ychwanegol i blannu coed. Fel yr eglura'r ceidwad gwenyn, Stephen Walimbwe:

**"Dysgais sut i wneud cychod gwenyn gan ddefnyddio deunyddiau lleol. Daeth y gwenyn mêl iddynt o'u gwirfodd – ni wnaethant gostio dim i mi. Mae'r gwenyn yn bwydo ar fy nghoed ac yn rhoi mêl i mi. Bu'r buddsoddiad yn fach ond rwyf wedi elwa'n fawr. Nawr mae fy nghymdogion am wneud yr un peth. Byddaf yn plannu mwy o goed."**





# Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

Mae rhaglen CDRh a ariennir gan grant Cymru o blaid Affrica yn cynnig y cyfle i weithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol weithio am 8 wythnos yn Affrica Islaw'r Sahara ar brosiectau a gynlluniwyd i wella eu sgiliau a'u profiad personol a phroffesiynol tra'n cyfrannu at y Nodau i drechu tlodi. Ers 2007, mae'r rhaglen wedi cynnig dros 150 o leoliadau heriol.

Un o brif egwyddorion y rhaglen yw cysoni lleoliadau â'r Nodau, gan greu partneriaethau â sefydliadau ac elusennau ar lawr gwlad er mwyn gweithio gyda'r bobl fwyaf anghenus. Rhannwyd mwy na 47,300 awr o arbenigedd â phartneriaid yn Affrica drwy'r rhaglen hyd yn hyn.

**"Mae'r rhaglen yn cynnig cyfle gwych i brofi eich gwydnwch a meithrin eich sgiliau arwain. Ond, yn y pen draw, rydych yn cael llawer mwy allan o'r rhaglen na'r hyn a rowch i mewn. Cewch gwrdd â phobl anhygoel sy'n gwneud pethau anhygoel o dan amgylchiadau na allwch bron eu coelio. Nid wyf yn gwybod am unrhyw raglen hyfforddi arall sy'n cynnig y fath amlygiad, nac yn gwobrwyo eich cyfranogiad i'r fath raddau."**

Steve Davies, Llywodraeth Cymru






# Cymryd rhan

Elfen allweddol o'r gweithgarwch rydyn ni'n ei gefnogi yw darparu mynediad at grantiau ar gyfer prosiectau bach. Ein nod cyffredinol yw annog mwy o bobl i weithredu mewn ffordd o safon uwch dros ddatblygu rhyngwladol.

Gyda hyn mewn cof, rydyn ni hefyd yn cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio ar raddfa fawr i filoedd o bobl ar hyd a lled Cymru bob blwyddyn. Mae'r digwyddiadau hyn, sy'n cael eu cynnal gan ein partner Hub Cymru Affrica, yn canolbwyntio ar ddod â phobl ynghyd i rannu arfer gorau, codi ymwybyddiaeth o heriau cyffredin a thrafod atebion posibl. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau'r cynaliadwyedd uchaf posibl, datblygu sgiliau codi arian a chryfhau'r rhwydwaith o bobl yng Nghymru sy'n gweithio ar brosiectau datblygu yn Affrica.

Rydyn ni'n annog pawb a phopeth i gymryd rhan, o'r rheini sy'n newydd i ddatblygu rhyngwladol i'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn arbenigwyr yn y maes. I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal chi, ewch i www.hubcymruafrica.cymru

# Cymru o blaid Affrica

# 10 Mlynedd

## Cysylltu â Chymru o Blaid Affrica

Os hoffech gysylltu â Thîm Cymru o Blaid Affrica anfonwch e-bost at

**walesforafrica@wales.gsi.gov.uk**

neu ffoniwch +44 (0)29 2082 1670

@walesforafrica

**www.cymru.gov.uk/cymruoblaidaffrica**

## Hub Cymru Africa

@HubCymruAfrica

**www.hubcymruafrica.cymru**

## Masnach Deg Cymru

@FairTradeWales

**www.masnachdeg.com**

## Rhaglen Maint Cymru

@sizeofwales

**www.sizeofwales.org.uk**

## Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

@academiwales

**www.academiwales.gov.wales**

## Plant!

**http://llyw.cymru/pynciau/yramgylcheddachefngwlad/coedwigaeth/plant!**